**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Scott ymddiheuriadau am ei fod wedi bwriadu mynychu. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD SIR DDINBYCH - STRATEGAETH A FFAFRIR DRAFFT | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol i'r Cyngor ynglŷn â'r Strategaeth Ddewisol CDLl Newydd Drafft fel a ganlyn -*<br><br>*(a)* ***Lefelau Arfaethedig o Dwf Drafft:***<br>*68ha o dir cyflogaeth i gynnal rhagofyniad tir o 47.6ha.*<br>*Tir ar gyfer 3,775 o gartrefi newydd i gwrdd â'r gofyniad tai o 3,275.*<br><br>*(b)* ***Dull Gofodol Arfaethedig Drafft:***<br>*Yn seiliedig ar Opsiwn 3 - canolbwyntio ar ddatblygu yn Safle Strategol Bodelwyddan ac aneddiadau â gwasanaeth; y tair haen uchaf yn yr hierarchaeth aneddiadau (prif ganolfannau, canolfannau lleol a phentrefi) gyda thwf mwy cyfyngedig yn yr aneddiadau heb wasanaethau eraill (mewnlenwi a safleoedd bach o fewn ffiniau datblygu), yn canolbwyntio'n bennaf ar gwrdd ag anghenion lleol*<br><br>*(c)* *i argymell y Strategaeth a Ddewisir Drafft (Atodiad 2 o'r adroddiad) yn ei gyfanrwydd i'r Cyngor, a*<br><br>*(d)* *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN | ***CYTUNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell bod y Cyngor yn -*<br><br>*(a) Cefnogi'r Achos Busnes terfynol ar gyfer y Prosiect (bydd hyn yn cynnwys cywreinio'r achos busnes drafft wedi'i atodi yn Atodiad A o'r adroddiad);*<br><br>*(b) cefnogi sefydlu Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Masnachu Llywodraeth Leol Dielw (LATC);*<br><br>*(c) cefnogi penodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus i Fwrdd y LATC;*<br><br>*(d) Cefnogi cadw'r enw presennol 'Hamdden Sir Ddinbych' ar gyfer y LATC, a*<br><br>*(e) bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B Rhif Cyfeirnod 564 yn yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaeth.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac*<br><br>*(b) yn nodi defnydd arfaethedig y gwasanaeth wrth gario mlaen.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **9** | NEWIDIADAU I BENODIADAU CONTRACTWYR I FFRAMWAITH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y newid i Lot 3 a'r contractwyr a nodir ym mharagraff 3 o'r adroddiad ar gyfer Fframwaith Contractwyr Adeiladau Cyhoeddus ac Ysgolion Gogledd Cymru 2 yn cael eu* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | ADEILADU GOGLEDD CYMRU (NWCF2) | *cymeradwyo.* |